

Hysbysiad Preifatrwydd

Cyflwyniad

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio pa ddata personol byddwn yn casglu gennych chi pan fyddwch yn gwneud cais rhyddid gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, pam rydym yn ei gasglu ac at ba ddiben rydym yn ei ddefnyddio.

Rydym yn casglu'r wybodaeth yn uniongyrchol gennych chi pan fyddwch yn cyflwyno cais.

Eich hawliau a'ch dewisiadau

O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), mae gennych yr hawl i:

- gael mynediad i'r data personol mae Coleg Gŵyr yn ei ddal amdano chi
- gofyn i Goleg Gŵyr Abertawe wirio unrhyw anghywirdeb yn y data hwnnw
- gwrthod prosesu ar sail sy'n berthnasol i'ch sefyllfa benodol chi (mewn rhai amgylchiadau)
- cyfyngu ar brosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael ei ddileu (mewn rhai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef rheolydd annibynnol diogelu data

Am ba hyd y bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn cadw'ch gwybodaeth?

Bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn cadw'r data personol a gesglir am gyfnod o dair blynedd ar ôl ymateb i'ch cais.

Manylion Cyswllt

Am ragor o wybodaeth am yr wybodaeth mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ei chadw a'i defnydd, neu os hoffech ymarfer eich hawliau o dan GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data, Coleg Gŵyr Abertawe, Heol Tycoch, Abertawe SA2 9EB

dpo@gcs.ac.uk

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion

isod: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell

gymorth y DU)

<https://ico.org.uk/>

Hysbysiadau o newidiadau

Os ydym yn mynd i ddefnyddio'ch data chi mewn ffordd wahanol i'r hyn a ddatganwyd ar adeg ei chasglu, cewch eich hysbysu. Bydd holl brosesu Coleg Gŵyr Abertawe yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data bresennol. Bydd diweddariadau i'r hysbysiad preifatrwydd ar gael ar ein gwefan yn www.gcs.ac.uk

Pa wybodaeth bersonol amdano chi sy'n cael ei chasglu a'i defnyddio gan Ganolfan Hamdden Coleg Gŵyr Abertawe?

Data Personol

Pan fyddwch yn cyflwyno cais i'r Coleg, rydym yn gofyn am y canlynol:

- manylion hunaniaeth
 - manylion cyswllt
-

Sut caiff eich data ei ddefnyddio gan Goleg Gŵyr Abertawe?

Byddwn yn defnyddio'ch data personol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, ac mae ei brosesu'n angenrheidiol i gyflawni tasg a gwblheir er budd y cyhoedd.

Defnyddir yr wybodaeth a ddarperir at y dibenion canlynol:

- Cysylltu â chi ynghylch eich cais os oes angen unrhyw eglurhad neu wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'ch cais arnom, eich diweddarau chi ar gynnydd eich cais ac ymateb yn llawn i'ch cais ac unrhyw gŵyn ddiweddarach o ran ymdrin â'r cais a'r penderfyniad a wnaed.
- Mae Adran 8 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn datgan y dylai cais gynnwys enw'r ymgeisydd a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth.

Caiff ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a dderbynnir gan y Coleg eu cofnodi a'u cadw ar ffurf electronig a phapur wrth ymdrin â nhw.

Â phwy rydym yn rhannu'ch data

Ni chaiff y data personol rydym yn ei gasglu mewn perthynas â'ch cais ei rannu o fewn y Coleg. Fodd bynnag, gellir ei rannu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) fel rheolydd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, â llys, tribiwnlys, parti neu ddarpar barti pan fydd datgeliad yn angenrheidiol er mwyn ymarfer, sefydlu neu amddiffyn hawliad cyfreithiol, pan orchmynnir i ni wneud gan lys neu dribiwnlys neu pan fydd yn ofynnol i ni wneud fel arall yn ôl y gyfraith.

Trefniadau diogelwch eich data a ddelir gan Goleg Gŵyr Abertawe

Mae gan y Coleg bolisiau Diogelwch Gwybodaeth cadarn er mwyn diogelu'ch gwybodaeth. Mae gan bob aelod o staff yn y Coleg ddyletswydd am sicrhau yr ymdrinnir â'ch data yn ddiogel. Caiff y data y mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ei ddal amdanoch ei gadw mewn system ddiogel a reolir.

Awst 2018
